# Rhaglen Gyflawn

**Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru**

**North & Mid Wales Trunk Road Agent**

Asiantaeth Gefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

2.00 y.h., Dydd Llun, 27ain Chwefror, 2017,

Ystafell Bwyllgor 2, Swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Cae Penarlag, Dolgellau

---

## Rhaglen

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | YMDDIHEURIADAU | |
| **2.** | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | |
| **3.** | COFNODION CYFARFOD 16-5-2016 | (Tudalennau 2 - 5) |
| **4.** | ADRODDIAD CYD BWYLLGOR | (Tudalennau 6 - 41) |
| **5.** | CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau’r wasg a’r cyhoedd allan o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym mharagraff 14.10.2, Rhif 13. | |
| **6.** | UNRHYW FUSNES ARALL | |
| **7.** | DYDDIAD CYFARFOD NESAF | |

Uned 7, Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor, LL57 4DF
01286 685 186
lyndahumphreys@nmwtra.org.uk

# ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU CYDBWYLLGOR 16-05-16

**Cynhaliwyd am 1.30am, Ddydd Llun, 16 Mai 2016**
**yn Ystafell Bwyllgor 2, Cae Penarlâg, Dolgellau**

**Yn bresennol-** Y Cynghorydd Alun Williams (Ceredigion) (Cadeirydd),

David Bithell (Wrecsam), David Smith (Sir Ddinbych)

**Hefyd yn bresennol** – Dilwyn Williams (Prif Weithredwr, Gwynedd), Huw Morgan, Cyfarwyddwr Strategol (Ceredigion), Steve Parker Pennaeth Gwasanaeth (Sir Ddinbych), Geraint Edwards (Pennaeth ERF (Conwy) , Nigel Brinn, Pennaeth Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu (Powys), Darren Williams (Rheolwr Gwasanaeth, Wrecsam), Dave Cooil (Pennaeth Asiantaeth, ACGChC), Ian Hughes (Rheolwr Busnes ac Ansawdd ACGChC), Lynda Humphreys (Gweinyddwr, ACGChC), Andy Stewart, Rheolwr Llwybr Ffyrdd (ACGChC).

**Ymddiheuriadau:** Gwyn Morris Jones (Pennaeth Gwasanaeth, Gwynedd), Paul Arnold, (Pennaeth Gwasanaeth, Ceredigion), Dewi Williams (Pennaeth Gwasanaeth, Ynys Môn), Cyng John Brunt (Powys), Cyng John W Jones (Gwynedd), Cyng David Cowans (Conwy), Cyng John Arwel Roberts (Ynys Môn), Cyng Bernie Attridge, (Sir y Fflint), Steve Jones (Pennaeth Strydwedd, Sir y Fflint)

**1. Cofnodion cyfarfod 28/9/15**
Derbyniwyd y cofnodion.

**2. Materion yn codi**
Cywiriadau i eitem 8 (i) dylai ddarllen Mawrth 2016 yn hytrach na 2015 a bydd y swyddogaethau gweinyddol yn trosglwyddo i'r Asiantaeth ar 1/4/16.

**3. Datgan Buddiant Personol**
Dim.

**4. Adroddiad Cydbwyllgor**
Rhoddwyd diweddariad gan DRC.

*Dyrannu gwaith i Unedau Darparu Gwasanaeth yr Awdurdodau Lleol-* Adroddodd DRC bod y rhagolygon trosiant ar gyfer 2015/16 yn is na lefelau 2014/15, yn bennaf oherwydd gaeaf eithriadol o fwyn. Mae ACGChC yn adolygu lefelau ffioedd ar hyn o bryd i sicrhau bod costau rheoli a gorbenion sydd wedi'u hadnabod gan Awdurdodau Partner (AP) yn cael eu hadfer. Bydd hyn yn cael ei fonitro yn flynyddol.

Cadarnhaodd DRC bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi sicrhau cyllideb gyfalaf uwch oedd yn rhagweld y byddai'r gyllideb gyffredinol ar draws Cymru yn £23m yn fwy o ran cyfalaf o'i gymharu gyda'r un cyfnod y llynedd.

*Gweithredu'r Achosion Busnes* - Mae ACGChC wedi bod yn bwrw ymlaen gyda'r gweithrediad ac yn gyffredinol maent yn dilyn y rhaglen. Roedd y trefniadau staffio wedi cael eu trin mewn proses dau gam gyda nifer gyfyngedig iawn o swyddi nawr heb eu llenwi ac yn

destun hysbysebu pellach. Mae nifer cyffredinol staff ACGChC wedi gostwng o tua 19 gan ystyried staff Amser Llawn (FTE) sy'n rhan o'r AP yn dilyn cwblhau newid yn y model.

Gofynnodd y Cyng. Bithell am eglurhad am nifer gwirioneddol y staff.

Esboniodd DRC fod ACGChC wedi adnabod tua 60 o staff FTE oedd yn rhan o'r AP oedd yn flaenorol wedi ymgymryd â swyddogaethau'r cefnffyrdd oedd bellach wedi eu trosglwyddo i ACGChC. Roedd hyn yn ychwanegol at y rhai a gyflogwyd yn uniongyrchol gan ACGChC. Gan mai dim ond 41 o staff oedd wedi eu trosglwyddo bu gostyngiad net yn lefel staffio o tua 19.

**PENDERFYNWYD:- Anfon cronoleg lefel staff at aelodau'r Pwyllgor.**

**5. Diweddariad ACGChC ar Archwiliad a Meincnodi Cynnal a Chadw Cylchol**

Cafwyd cyflwyniad gan Andy Stewart.

Trafodwyd crynodeb o Archwiliad a Meincnodi Cynnal a Chadw Cylchol ACGChC. Roedd yn cymharu blynyddoedd ariannol 14/15 gyda 15/16.

Costau ffordd gerbydau ddeuol wedi ei ostwng o £30,000 (gostyngiad o 4%)
Costau ffordd gerbydau sengl wedi gostwng o £180,000 (gostyngiad o 12%)

Mae'r gostyngiad cost a wnaed yn unol â'r arbedion targed y cyfeiriwyd at LlC a chyflawnwyd hyn o flaen y rhaglen a nodwyd. Mae'r broses meincnodi wedi bod yn allweddol i wella cydgordio costau ar draws bob AP.

Cyfeiriodd Dilwyn Williams at raddfeydd y sector preifat a fedrai edrych yn fwy deniadol na'r rhai ar gyfer darparu yn fewnol. Cadarnhaodd DRC nad oedd hyn yn wir ymhob ardal gan fod graddfeydd y sector preifat mewn rhai achosion yn uwch oherwydd grymoedd uwch yn y farchnad leol. Cydnabuwyd fod angen i raddfeydd y sector gyhoeddus, cyn belled â phosib, i fod yn gyson ar draws y cyfan o ardal yr Asiantaeth.

Dywedodd NB bod angen gofal wrth ddehongli data meincnodi.

Rhoddwyd diweddariad gan y Cyng. Bithell am derfynu Contract Amey a ddaeth i ben ym Mawrth 2016 a gallu rheolaeth fewnol Cyngor Wrecsam i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw priffyrdd ynghyd â gwaith adweithiol bach i uchafu defnydd eu gweithlu mewnol ac i adeiladu cydnerthedd yn eu tîm Gweithredu o'r 1/4/16.

Adroddodd DRC y bydd yr Asiantaeth yn adolygu adfer ffioedd unwaith fo costau alldro cynnal a chadw'r cylch 1af a'r 2il wedi eu derbyn gan bob AP.

**6. Cytundeb Darparu Gwasanaeth 2016**

Roedd y dogfennau diwygiedig yn awr yn darparu manyleb fanylach i'r gwaith cefnffyrdd ar draws Cymru a byddai'n gwella lefel cysondeb i ddehongli gofynion Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd y Cytundeb Darparu Gwasanaeth diwygiedig ar gyfer Gwaith i Awdurdodau Partner ym mis Ionawr 2016 ynghyd ag Ymgynghoriaeth CDG ym Mai 2016.

Adroddodd DRC fod Gweinyddiaeth Dechnegol CDG yn sylweddol ysgafnach bellach wedi trosglwyddo'r swyddogaethau craidd ond roedd yna rai swyddogaethau gweddilliol oedd dal angen i bob AP eu gwneud.

*Cynnal a chadw yn seiliedig ar wybodaeth* - Dywedodd DRC fod gweithrediad yr achos busnes yma yn un o'r heriau mwyaf sylweddol yn 2016/17 a bod ACGChC mewn trafodaeth gyda phob AP drwy gyfres o weithdai. Y bwriad oedd ceisio cadw cymaint â phosib o lefelau hanesyddol o drosiant a rhaglen gytbwys o waith i sicrhau fod adnoddau pob AP yn cael eu defnyddio'n llawn a bod lefelau adfer ffioedd yn cael eu cynnal. Bydd hyn yn golygu ymgymryd â swyddogaethau cynnal a chadw a, neu gynyddu lefelau cynnal a chadw er enghraifft ar strwythurau gwaith cynnal a chadw rheolaidd.

**7. Adolygu trefniadau darpariaeth Gwaith Cynnal a Chadw Cyngor Sir Ddinbych**

Rhoddodd DRC ddiweddariad ar gais Cyngor Sir Ddinbych i ofyn am adolygu'r trefniadau darpariaeth gwaith cynnal a chadw a'u dymuniad i dynnu'n ôl o ddarparu swyddogaethau rheolaidd a gwaith cynnal a chadw adweithiol i Gefnffyrdd. Dymunai Cyngor Sir Ddinbych barhau i ddarparu gwaith cynnal a chadw gaeaf a gwasanaeth ymateb argyfwng y tu allan i oriau.

Trafodwyd y mater yng nghydgyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth ar 11/5/16 a gwahoddwyd ceisiadau, yn unol â phrotocol mynegi diddordeb Partneriaeth ACGChC i ymgymryd â'r swyddogaeth cynnal a chadw uchod yng Nghyngor Sir Ddinbych, gan yr holl AP eraill.

Cadarnheir y diddordeb a fynegwyd gan bob AP arall isod:

| Awdurdod | A55 | Senglau | Dim diddordeb |
|---|---|---|---|
| Conwy | X | | |
| Sir y Fflint | X | X | |
| Wrecsam | | | X |
| Powys | | X | |
| Gwynedd | | X | |
| Ynys Môn | | | X |
| Ceredigion | | | X |

Cyfarfod i'w drefnu ar ddechrau Mehefin 2016 gyda phob AP a Chyngor Sir Ddinbych i fwrw ymlaen i ddiwygio'r trefniadau cyflwyno.

Bydd ACGChC yn paratoi Adroddiad Opsiynau gyda chrynodeb o hyd teithiau ffordd a gwerth cysylltiedig a ragamcannir i alluogi asesu incwm ffi a chyfraniadau costau sefydledig sydd wedi eu haddasu. Y flaenoriaeth gyntaf oedd sefydlu trefniant cost effeithiol wedi ei optimeiddio a chyfrannau mwy cyfartal os oedd yn bosib fel bod pob awdurdod gyda diddordeb yn ymdrin â pheth o'r rhwydwaith.

**8. Cyllid**

*i) Cyllidebau 2016/17* - Cafwyd diweddariad gan IKH.

Disgwylir y bydd y gwariant refeniw am 16/17, heb gynnwys amrywiadau cynnal a chadw gaeaf a gwaith cynnal a chadw ymatebol, yn debyg i 2015-16.

Ar yr amod fod y lefelau ariannu yn cael eu cadarnhau gan LlC, mae'n ymddangos yn awr y bydd y gyllideb Refeniw gyffredinol i Gymru tua £66.5m gyda'r gyllideb gyfalaf wedi'i gosod ar £28.65m.

Rydym yn dal i aros am gyflwyniadau cost gan rai AP sef Atodiad J (Gwaith Cynnal a Chadw).

Dywedodd IKH mai'r bwriad oedd bod pob AP yn derbyn ffigyrau dangosol ar wariant refeniw a chyfalaf ymhob AP yn nechrau Mehefin. IKH i weithredu.

Codwyd mater ariannu cyfalaf ychwanegol/hwyr gan Cyng. Smith. Adroddodd DRC fod oddeutu £3.5m o gyfalaf ychwanegol wedi ei ddarparu i ACGChG yn Ionawr 2016 a bod £20m pellach wedi ei adnabod ar draws Cymru yn ystod Chwefror ond nid oedd ACGChC yn gallu defnyddio dim o'r arian hwyr yma oherwydd yr amser oedd ei angen i gaffael gwaith a'r diffyg arwynebedd ffordd oedd ar gael.

Gwnaeth Huw Morgan sylw ar fanteision posib rhaglen 5 mlynedd i waith cyfalaf. Esboniodd DRC fod y swyddogaeth gynllunio bellach yn gyfrifoldeb i LlC ac roedd yr Asiantaethau Cefnffyrdd yn darparu data cyflwr asedau i LlC. Mae LlC wedyn yn penderfynu pa gynlluniau gaiff eu blaenoriaethu, eu hariannu ac wedyn yn cael eu cyflawni gan eu Hasiantaethau. Dywedodd DRC fod y mater yma wedi ei godi yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym Mawrth 2015 gyda phwyslais cryf ar yr angen am raglen 5 mlynedd i alluogi dull mwy cost effeithiol o gyflawni gwaith cyfalaf.

**9. Unrhyw fater arall**

***Cytundeb Darparu Gwasanaeth - rhaglen cynnal a chadw cylchol***

Mynegodd y Cyng. Bithell ei bryderon am y newidiadau i'r gweithgareddau cynnal a chadw cylchol gaiff eu harwain gan wybodaeth, yn enwedig y drefn o dorri glaswellt a'r effaith ar dwristiaeth yn Wrecsam. Roedd Cyngor Wrecsam wedi cynllunio i dorri'r glaswellt ar 21/6/16.
Roedd DRC yn rhannu pryderon y Cyng. Bithell ynghyd ag aelodau'r Pwyllgor.

Esboniodd DRC fod y newidiadau yn golygu y byddai gofynion gwaelodlin Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru yn cael eu cwrdd a bod yr arbedion posib yn sylweddol ac roedd y penderfyniad yn awr yn nwylo LlC ac roedd yn fater ar gyfer Polisi LlC.

**Penderfynwyd: Byddai'r Cydbwyllgor yn rhoi gwybod i'r Gweinidog am y pryder yma ac fe fyddai'r Cyng. Bithell hefyd yn ysgrifennu ar wahân at y Gweinidog ar ran Cyngor Wrecsam i fynegi pryderon am y newidiadau i'r gweithgareddau cynnal a chadw cylchol gaiff eu harwain gan wybodaeth a'r effaith bosib ar yr economi leol gan gyfeirio yn benodol at safle treftadaeth y byd.**

**10. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Trafodwyd amlder cyfarfodydd yn y dyfodol. Cytunwyd bod dau gyfarfod y flwyddyn yn briodol ac y cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd 2016 oni bai bod datblygiadau sylweddol ynglŷn â phroses adolygu’r Asiantaeth fyddai angen sylw’r Cydbwyllgor ac os hynny, byddai cyfarfod interim o’r Cydbwyllgor yn cael ei alw.

**PENDERFYNWYD: Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd 2016. Bydd dyddiadau yn cael eu cylchredeg i'r Aelodau.**

Ar ran y Cydbwyllgor, diolchodd y Cynghorydd Alun Williams i’r swyddogion am eu gwybodaeth a’u cyngor yn ystod y cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.37pm a daeth i ben am 3.00pm.

---

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

# Adroddiad y Cyd-bwyllgor

27ed Chwefror 2017

Yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru
Working on behalf of the Welsh Government

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Dyrannu Gwaith i Unedau Darparu Gwasanaethau Awdurdodau Lleol | 3 - 6 |
| 3. Trefniadau'r Bartneriaeth | 7 - 8 |
| 4. Newidiadau i'r trefniadau darparu gwasanaethau yn Sir Ddinbych | 8 - 9 |
| 5. Bodloni gofynion Llywodraeth Cymru | 9 - 10 |
| 6. Perfformiad | 10 |
| 7. Gwella'n barhaus | 11 |
| 8. Anghydfodau ynghylch gwasanaethau | 11 |

**ATODIADAU**

**Atodiad A – Rhaglen Weithredu'r Achosion Busnes**

**Atodiad B – Cronoleg Staffio ACGChC**

**Atodiad C – Ailddyrannu Rhwydwaith Cyngor Sir Ddinbych**

**Atodiad D – Cofrestr Risgiau Partneriaeth ACGChC 2016/17**

**Atodiad E – Adroddiad ar Gynnydd a Pherfformiad Ymgyngoriaethau Awdurdodau Partner**

**Atodiad F – Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor**

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am y pynciau sy'n perthyn i gylch gorchwyl penodol y Cyd-bwyllgor.

## 2 Dyrannu Gwaith i Unedau Darparu Gwasanaethau Awdurdodau Lleol

2.1 Mae gwaith yn dal i gael ei ddyrannu i'r holl Awdurdodau Partner ar draws prif feysydd swyddogaethol yr Asiantaeth ar gyfer Gwasanaethau Ymgynghori, Gweithiau a Gweinyddiaeth Dechnegol yn unol â phrotocolau'r Asiantaeth. Gweler Tabl 1 trosodd.

2.2 Roedd y trosiant yn 2015/16 yn is na lefelau 2014/15, a hynny'n bennaf oherwydd i'r gaeaf fod yn eithriadol o dyner a gostyngiad yng ngwariant diffygion CAT1. Yn unol â'r dull llyfr agored o ymdrin â thaliadau i Awdurdodau Partner ac mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan rai Awdurdodau Partner ynghylch adennill ffioedd, mae ACGChC wedi adolygu lefelau ffioedd ar gyfer 2014/15 a 2015/16 i sicrhau bod costau gorbenion rheoli a gafodd eu nodi gan Awdurdodau Partner yn cael eu hadennill. Mae'r addasiadau a'r taliadau cysoni angenrheidiol fesul Awdurdod wedi eu gweithredu a gelli'r eu gweld yn Nhabl 2.

2.3 Disgwylir i'r gwariant refeniw rhagamcanol ar gyfer 2016/17 ac eithrio amrywiadau gwaith cynnal a chadw yn ystod y gaeaf a gwaith cynnal a chadw ymatebol (CAT1) fod yn debyg i'r hyn a gafwyd yn 2015/16, fel y dengys Tabl 3. Fodd bynnag, yn dilyn y broses o weithredu'r achos busnes ynglŷn â chyfundrefn cynnal a chadw sydd wedi'i seilio ar wybodaeth, bydd cyfansoddiad gweithgareddau'r gweithiau'n newid.

2.4 Bydd ACGChC yn parhau i fonitro'r trosiant ac adolygu'r broses o adennill ffioedd yn flynyddol. Bydd angen hefyd i gostau rheoli gael eu hadolygu mewn rhai Awdurdodau oherwydd newidiadau i'r dull o ddarparu gwasanaethau e.e newid yn Sir Ddinbych o ran y rôl o gynnal a chadw'r rhwydwaith a Cheredigion yn tynnu'n ôl o ddarparu gwasanaethau goleuo strydoedd. Mae meincnodi costau unedau rheolaeth wedi ei gyflawni gyda'r bwriad o gael gwell dealltwriaeth o'r amrywiad mewn costau'r AP. Mae hyn wedi galluogi ni i ystyried os ydi unrhyw weddillion neu golledion gan yr AP oherwydd lefel y costau rheolaeth yntau lefel uchel/isel o waith trwy'r AP. Bydd ymarferiad tebyg yn cael ei gwblhau ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2016/17 i gynorthwyo gydag adolygiad o lefel y ffi.

2.5 Mae lefel ariannu ar gyfer 2016/17 yn £45m ar gyfalaf a £16.5m ar refeniw sef cyfanswm o £61.5m ac yn sylweddol uwch na £46.2 yn 2015/16.,Mae mwyafrif o'r ariannu ychwanegol o fewn y gyllideb cyfalaf ac yn cael ei wario ar waith adnewyddu cynnal a chadw mawr (ail-wynebu) ar draws y rhwydwaith.

2.6 Mae lefel y gwariant cyfalaf yn arbennig o bwysig i lwyth gwaith Ymgynghoriaeth Awdurdodau Partner yn ogystal â chadwyn gyflenwi sector preifat yr Asiant. Ar gyfer 2016/17, mae Llywodraeth Cymru wedi newid y trefniadau comisiynu ac erbyn hyn

mae'n darparu briffiau prosiectau ffurfiol i ACGChC ar gyfer pob comisiwn cyfalaf. Mae hyn wedi achosi oedi cychwynnol cyn i brosiectau gael eu comisiynu yn ystod mis Ebrill a mis Mai oherwydd proses o ymsefydlu. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi gwella yn ystod y flwyddyn ac mae briffiau gan Lywodraeth Cymru yn llifo'n eithaf rhwydd i ACGChC erbyn hyn. Mae Llywodraeth Cymru ac ACGChC yn cydnabod, er mwyn osgoi bwlch mewn ffrydiau gwaith ac i uchafu amser rhaglenni yn ystod y flwyddyn, fod angen i brosiectau y bwriedir gweithio arnynt yn gynnar yn y flwyddyn ariannol gael eu comisiynu ym mis Mawrth o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Disgwylir y bydd gwelliant sylweddol yn y trefniadau comisiynu wrth ddechrau blwyddyn ariannol 2017/18.

## Tabl 1 – Costau alldro 2015/16 a gyflwynwyd fel rhan o'r Hawliad Terfynol

| Partner | CUR (Costau Unedau Rheoli) / Gweinyddiaeth Dechnegol £1000 | Gwasanaeth Swyddog Traffig ac Ystafell Reoli £1000 | Gweithrediadau £1000 | Arolygu / Cyflawni £1000 | Gwaith Cynnal a Chadw Arferol/ Ymatebol £1000 | Ymgynghoriaeth / Strwythurau £1000 | Taliadau Fframwaith a Thaliadau Allanol Eraill £1000 | Cyfanswm £1000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | 78 | 0 | 0 | 0 | 1,184 | 475 | 0 | 1,737 |
| Conwy | 70 | 0 | 0 | 0 | 3,203 | 909 | 0 | 4,182 |
| Sir Ddinbych | 98 | 0 | 0 | 0 | 949 | 694 | 0 | 1,741 |
| Sir y Fflint | 17 | 0 | 0 | 0 | 2,107 | 0 | 0 | 2,124 |
| Gwynedd | 366 | 0 | 0 | 0 | 3,057 | 2,589 | 0 | 6,012 |
| Powys | 338 | 0 | 0 | 0 | 5,402 | 1,622 | 0 | 7,362 |
| Wrecsam | 20 | 0 | 0 | 0 | 1,713 | 139 | 0 | 1,872 |
| ACGChC | 3,457 | 1,825 | 906 | 203 | 0 | 0 | 14,770 | 21,161 |
| **Cyfanswm** | **4,444** | **1,825** | **906** | **203** | **17,615** | **6,428** | **14,770** | **46,191** |

## Tabl 2 - Costau ymrwymedig 2016/17 hyd at 30/1/17

| Partner | CUR (Costau Unedau Rheoli) / Gweinyddiaeth Dechnegol £1000 | Gwasanaeth Swyddog Traffig ac Ystafell Reoli £1000 | Gweithrediadau £1000 | Arolygu / Cyflawni £1000 | Gwaith Cynnal a Chadw Arferol/ Ymatebol £1000 | Ymgynghoriaeth / Strwythurau £1000 | Taliadau Fframwaith a Thaliadau Allanol Eraill £1000 | Cyfanswm £1000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | 19 | - | - | - | 1,196 | 224 | - | 1,439 |
| Conwy | 34 | - | - | - | 2,979 | - | - | 3,013 |
| Sir Ddinbych | 10 | - | - | - | 638 | 381 | - | 1,029 |
| Sir y Fflint | - | - | - | - | 2,234 | - | - | 2,234 |
| Gwynedd | 44 | - | - | - | 2,745 | 1,723 | - | 4,512 |
| Powys | 89 | - | - | - | 4,917 | 948 | - | 5,954 |
| Wrecsam | - | - | - | - | 1,270 | - | - | 1,270 |
| ACGChC | 3,194 | 1,650 | 1,500 | 1,635 | - | - | 23,996 | 31,975 |
| **Cyfanswm** | **3,390** | **1,650** | **1,500** | **1,635** | **15,979** | **3,276** | **23,996** | **51,426** |

**Tabl 3 - Adolygu'r broses o adennill ffioedd yn erbyn ffi a throsiant sylfaenol 2014/15 a 2015/16**

| | CEREDIGION | CONWY | DENBIGHSHIRE | FLINTSHIRE | GWYNEDD | POWYS | WREXHAM | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| ATODIAD A - Costau rheoli Uned Gwaith (Cyflogai gynnwys, Adeiladau, Trafnidiaeth, Cyflenwadau a Gwasanaethau, Canol a Ad-daliadau Cyfalaf) 2014/15 | 145,113.00 | 201,461.00 | 111,338.17 | 166,999.00 | 283,007.00 | 422,601.00 | 80,293.00 | 1,410,812.17 |
| FFI GWIRIONEDDOL A DALWYD 14/15 | 145,680.00 | 254,247.00 | 116,642.00 | 199,497.00 | 258,753.00 | 499,397.00 | 127,202.00 | 1,601,418.00 |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Amrywiant +/- for 2014/15** | **567.00** | **52,786.00** | **5,303.83** | **32,498.00** | **- 24,254.00** | **76,796.00** | **46,909.00** | **190,605.83** |
| **Ffi Cysoni 2014/15** | **-** | **-** | **-** | **-** | **- 24,254.00** | **-** | **-** | **- 24,254.00** |
| | | | | | | | | |
| ATODIAD A - Costau rheoli Uned Gwaith (Cyflogai gynnwys, Adeiladau, Trafnidiaeth, Cyflenwadau a Gwasanaethau, Canol a Ad-daliadau Cyfalaf) 2015/16 | 190,161.57 | 260,867.00 | 122,745.58 | 165,083.85 | 282,495.98 | 458,863.38 | 83,874.00 | 1,564,091.36 |
| FFI GWIRIONEDDOL A DALWYD 15/16 * | 112,430.24 | 286,132.46 | 90,491.53 | 175,317.04 | 253,364.99 | 456,824.22 | 161,690.80 | 1,536,251.28 |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Amrywiant +/- for 2015/16** | **- 77,731.33** | **25,265.46** | **- 32,254.05** | **10,233.19** | **- 29,130.99** | **- 2,039.16** | **77,816.80** | **- 27,840.08** |
| **ffi Cysoni 2015/16** | **- 77,731.33** | | **- 32,254.05** | | **- 29,130.99** | **- 2,039.16** | | **- 141,155.53** |
| | | | | | | | | |
| **ffi Cysoni - 14/15 and 15/16 - Taliadau i AP** | **- 77,731.33** | **-** | **- 32,254.05** | **-** | **- 53,384.99** | **- 2,039.16** | **-** | **- 165,409.53** |

3 **Trefniadau'r Bartneriaeth**

3.1 Ar ôl cwblhau proses adolygu'r Asiant a derbyn yr achosion busnes a gyflwynwyd, bu ACGChC yn bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu'r achosion busnes. Cafodd yr Achosion Busnes mwyaf sylweddol sy'n gysylltiedig â newidiadau i fodel yr Asiantaeth a mewnoli swyddogaethau creiddiol eu cwblhau yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2016. Mae Achosion Busnes eraill sy'n gysylltiedig ag arbedion effeithlonrwydd gweithredol yn dechrau cyflawni'r arbedion costau a ragamcanwyd ac yn gyffredinol mae'r gwaith gweithredu yn cyd-fynd â'r rhaglen. Mae rhaglen wedi'i diweddaru i'w gweld yn Atodiad A.

**3.2** Mae'r trefniadau staffio sy'n ymwneud â gweithredu model newydd yr Asiantaeth wedi'u cwblhau erbyn hyn ac mae'r swyddi sy'n wag ar hyn o bryd i'w priodoli i lefelau trosiant staff arferol. Mae'r newidiadau wedi peri bod modd gostwng nifer y Staff Cyfwerth ag Amser Llawn tua 11%, a bu gostyngiad o 168 i 150 fel y nodir yn Atodiad B. Mae hyn yn creu lle i gynnwys 10 o swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn sy'n parhau i fod wedi'u hymgorffori mewn Awdurdodau Partner. Arwyddion presennol, ar sail hawliadau Gweinyddu Technegol gan yr AP hyd yma, yw bod nifer y staff sydd wedi'i mewnosod wedi gostwng yn is na 10. Mae hyn yn dangos bod arbedion gweinyddu technegol yn debygol o fod yn uwch na'r rhagamcaniad gwreiddiol. Mi fydd hyn yn cael ei egluro pan mae'r cais terfynol wedi'i gwblhau.

3.3 **Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru (LlCCLlC)**

Gweithredodd Llywodraeth Cymru broses fawr o ddiwygio'r llawlyfr hwn yn 2015 ac mae'n parhau i wella'r ddogfennaeth drwy ymgynghori â'r Ddau Asiant Cefnffyrdd. Mae fersiwn 2016 a ddiweddarwyd wedi'i gweithredu, sy'n cynnwys y diwygiadau a wnaed i fersiwn 2015. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru rhagor o waith i'w wneud ar y ddogfen, yn arbennig yng nghyswllt agweddau amgylcheddol, gan gynnwys rheoli'r ystad feddal. Disgwylir dogfen arall sydd wedi'i diweddaru yn 2017. Ar hyn o bryd, mae'r ddogfen yn cynnwys newidiadau a fydd yn creu arbedion o ran cost ym meysydd cynnal a chadw ac arolygu.

3.4 **Gweithredu'r Cytundeb Darparu Gwasanaeth**

Er mwyn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru yng nghyswllt Cytundeb Darparu Gwasanaeth (CDG) wedi'i gysoni / cyffredin ac fel y gellir manteisio ar dechnoleg sy'n datblygu ac arferion gwaith gwell, mae ACGChC ac ACDC wedi datblygu diwygiadau angenrheidiol i'r CDG. Bu CDG diwygiedig ar waith ers mis Ebrill 2016. Mae'r CDG yn gwneud y broses o weithredu LlCCLlC yn fwy clir a bydd yn ategu dull gweithredu mwy cyson o ran darparu gwasanaethau ar draws Awdurdodau Partner. Erbyn hyn, mae ACGChC a'r Awdurdodau Partner yn gweithredu yn ôl y Cytundebau Darparu Gwasanaeth diwygiedig ac er y bu nifer o ofynion o ran egluro, bellach mae'r Cytundebau Darparu Gwasanaeth wedi'u gweithredu'n llwyr ac yn gyffredinol mae Awdurdodau Partner yn cyflawni lefelau cydymffurfio da ym mwyafrif y meysydd. Fodd bynnag, nodwyd bod bylchau yn Systemau Rheoli Ansawdd rhai Awdurdodau

Partner, sef systemau sy'n ofyniad yn y Cytundeb Darparu Gwasanaeth. Mae ACGChC yn gweithio gyda'r Awdurdodau Partner hynny i fynd i'r afael â'r mater.

3.5 **Meincnodi**

Mae gwaith meincnodi helaeth wedi'i wneud ac mae dull gweithredu'r 'llyfr agored' sy'n cael ei fabwysiadu wedi peri bod modd cysoni i raddau llawer gwell ar draws Awdurdodau Partner. Darparwyd cyflwyniad ar y cyd gan ACGChC ac ACDC i uwch-reolwyr Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Trafnidiaeth, ym mis Gorffennaf 2016. Rhoddodd y cyflwyniad y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith meincnodi a wnaed gan ACGChC a'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu methodoleg y llyfr agored yn ACDC. Cafwyd ymateb da iawn i'r cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru, yn arbennig yng nghyswllt y ffaith bod y system yn creu llawer iawn o dryloywder o ran costau. Rhoddwyd cyflwyniad wedi'i ddiweddaru, gan gynnwys meincnodi costau sefydlog a chostau unedau rheoli gwaith yr AP i uwch reolwyr LlC gan gynnwys y Cyfarwyddwr Trafnidiaeth ar Ionawr 19eg 2017. Derbyniwyd y cyflwyniad yma'n dda hefyd.

Dau faes allweddol cadarnhawyd gan yr ymarfer meincnodi oedd:

- Alinio costau cynnal a chadw cylchol ym Mhowys, a fu'n uwch na rhai Awdurdodau Partner eraill.
- Costau cynnal a chadw cylchol yn Wrecsam, yn dilyn newid i'r model darparu(ar ôl trefniadau Amey).

Mae data a ddarparwyd gan Bowys, yn dangos bod y gwelliannau sylweddol a gyflawnwyd wedi sefydlogi erbyn hyn, ac mae'n ymddangos eu bod yn gynaliadwy. Mae data a ddarparwyd gan Wrecsam, hefyd yn dangos bod costau cylchol cyffredinol wedi lleihau oddeutu £50,000 (sy'n cyfateb i 20%) yn dilyn newid yn y model danfon gwaith gyda'r gwaith yn cael ei wneud neu ei reoli yn uniongyrchol gan bersonél CBSW. Daw hyn â chostau Wrecsam yn agosach yn awr at Bartneriaid eraill sydd â rhwydweithiau cymaradwy. Mae adroddiad meincnodi wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyflwyno ar wahân.

3.6 **Newidiadau i'r trefniadau Darparu Gwasanaethau yn Sir Ddinbych**

3.7 Ym mis Mai 2016, mynegodd Cyngor Sir Ddinbych rai pryderon am y manteision parhaus i'r Awdurdod o ddarparu gwasanaethau cynnal a chadw arferol ac ymatebol i ACGChC. Ar ôl cyfnod byr o drafodaethau rhwng Penaethiaid Gwasanaeth ACGChC a Chyngor Sir Ddinbych, bu iddynt gytuno y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn tynnu'n ôl o ddarparu gwasanaethau cynnal a chadw ymatebol a chynnal a chadw cylchol arferol. Cytunwyd y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i ddarparu gwasanaeth cynnal a chadw dros y gaeaf ynghyd â gwasanaeth ymateb mewn argyfwng y tu allan i oriau, ar gyfer ffyrdd cerbydau ag un lôn yn unig.

3.8 Yn dilyn cyfarfod ag Awdurdodau Partner a oedd wedi mynegi diddordeb mewn darparu gwasanaeth cynnal a chadw arferol ac ymatebol yng Nghyngor Sir Ddinbych drwy gytundeb mae darnau o rwydwaith Cefnffyrdd Cyngor Sir Ddinbych wedi'u hailddyrannu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, a Chyngor Gwynedd. Daeth y newidiadau uchod i rym ym mis Mehefin 2016. Dangosir manylion y dyraniad rhwydwaith diwygiedig yn Atodiad C.

3.9 Mae Cofrestr Risgiau'r Bartneriaeth wedi'i hadolygu a'i diweddaru i nodi'r risgiau i Bartneriaeth ACGChC ac i ddangos y camau parhaus sy'n cael eu gweithredu er mwyn rheoli a lliniaru'r risgiau pan fo modd gwneud hynny. Mae Cofrestr Risgiau'r Bartneriaeth wedi'i hatodi yn Atodiad D.

## 4 Bodloni gofynion Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Cytundeb Partneriaeth

4.1 Mae'r Uned Rheoli Cefnffyrdd (TRMU) yn gyfrifol am sicrhau bod gofynion Llywodraeth Cymru fel y'u pennir yn y Cytundeb Asiantaeth (Cytundeb Asiant Rheoli Llywodraeth Cymru, CARhLlC) yn cael eu bodloni. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi crybwyll dim problemau ynghylch cyflawni gofynion CARhLlC yn y cyfnod adrodd.

### 4.2 Grŵp Llywio'r Asiantaeth

Ni chynhaliodd y Grŵp Llywio ddim cyfarfodydd yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf.

### 4.3 Systemau Rheoli Ansawdd (SRhA)

Cynhaliodd y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) Archwiliad allanol o ACGChC ynghylch ISO 9001:2008,Systemau Rheoli Ansawdd, ym mis Medi 2016. Sicrhaodd yr Archwiliad hefyd fod y drefn yn cydymffurfio ag ISO 14001:2004, sy'n ymwneud â systemau rheoli amgylcheddol, a BS 18001:2007, sy'n ymwneud â systemau rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol. Llwyddodd yr Asiant i gynnal pob un o'r tair safon ardystio; fodd bynnag, canfu'r archwiliad saith mân achos o beidio â chydymffurfio. Mae ACGChC wedi nodi'r camau cywiro a'r amserlen sydd eu hangen er mwyn datrys y materion a welwyd yn archwiliad BSI.

Trefnwyd i ymgymryd â rhagor o waith i wella a datblygu System Rheoli Ansawdd ACGChC dros y 12 mis nesaf er mwyn trosglwyddo'n llwyddiannus i Safonau newydd BSI 14001:15 a 9001:2015.

Cynhaliwyd adolygiad tair blynedd Buddsoddwyr mewn Pobl ym mis Mehefin 2016 a llwyddodd ACGChC i gynnal ei Ardystiad.. Bydd ACGChC yn cynnal yr ardystiad hwn am 3 blynedd ac yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gweithio gyda Buddsoddwyr mewn Pobl i sicrhau bod y drefn yn cydymffurfio ac y ceir proses ddidrafferth o drosglwyddo i Fframwaith Chweched Cenhedlaeth newydd Buddsoddwyr mewn Pobl.

## 5 Perfformiad

### 5.1 Unedau Gwaith yr Awdurdodau Partner

Yn gyffredinol, nid oes dim materion sylweddol ynglŷn â pherfformiad Unedau Gwaith o safbwynt cyflawni. Fodd bynnag, mae wedi bod bwlch sylweddol rhwng y gwariant sydd wedi'i ymrwymo a'r costau y mae rhai Awdurdodau Partner yn eu hawlio. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i ôl-groniadau wrth ddod â chyfarwyddiadau gweithiau i ben. Mae ACGChC wedi gweithio'n agos gyda'r Awdurdodau Partner a mae lefelau boddhaol o gau cyfarwyddiadau gweithiau yn cael eu cyrraedd bellach. Dylai hyn hwyluso gwell reolaeth cyllidebol a thawelu pryderon LlC.

### 5.2 Ymgynghoriaethau Awdurdodau Partner

Mae'r perfformiad ymgynghori ar draws Ymgyngoriaethau pob Awdurdod Partner yn dda yn gyffredinol, er y cydnabyddir bod holl gapasiti llawer o Awdurdodau Partner yn cael ei ddefnyddio erbyn hyn ac, mewn rhai achosion, bu oedi i'r gwaith cyflawni o ganlyniad. Mae'r broses o Reolwyr Prosiectau Awdurdodau Partner a Noddwyr Prosiectau ACGChC yn cyfathrebu â'i gilydd wedi gwella, gan olygu bod y materion hynny o ran capasiti a chyflawni yn cael eu canfod a'u rheoli'n gynnar. Mae adroddiad ar berfformiad a chynnydd wedi'i gynnwys yn Atodiad E.

### 5.3 Fframweithiau'r Sector Preifat

Mae contractau fframwaith ACGChC yn parhau i weithredu'n dda ac mae perfformiad da gan gontractwyr ac ymgynghorwyr. Mae hyn wedi profi i fod yn hynod effeithiol yn chwarter 4 gyda chynnydd sylweddol mewn gwariant cyfalaf a rhaglen waith yn cael ei ddanfon.

Mae fframwaith contractwyr ACGChC wrthi'n cael ei adnewyddu a gwahoddwyd tendrau ar 27 Hydref drwy Gwerthwch i Gymru. Disgwylir i'r broses dyfarnu contract fynd rhagddi ym mis Ionawr 2017. Yn dilyn profiad gweithredol o dan y fframwaith sy'n dod i ben, mae'r strwythur lotiau wedi'i symleiddio er mwyn gwella'r trefniadau comisiynu. Cafodd y diwygiadau eu cyflwyno i gyflenwyr presennol a darpar gyflenwyr drwy gyfrwng gweithdy 'cwrdd â'r prynwr' a gynhaliwyd ym mis Awst, ac fe'u cymeradwywyd ganddynt.

## 6 Gwella'n barhaus

6.1 Prif ffocws ACGChC ers mis Mai 2016 fu gweithredu'r mesurau lleihau costau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd gweithredol ac sy'n gysylltiedig â'r achosion busnes a gyflwynwyd. Mae ACGChC ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyflawni'r arbedion rhagolygol ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd pellach yr ystyrir bod y model presennol o'r sector cyhoeddus yn arwain yn gynaliadwy yn y tymor hir, os caiff yr arbedion hynny eu cyflawni.

## 7 Anghydfodau o dan Gymal 9.6 o'r Cytundeb Partneriaeth

7.1 Mae Cymal 9.6 o'r Cytundeb Partneriaeth yn nodi proses uwchgyfeirio ar gyfer datrys anghydfodau a all godi rhwng yr Uned Rheoli Cefnffyrdd ac Awdurdodau Partner. Gall anghydfodau o'r fath gael eu cyfeirio at y Cyd-bwyllgor i benderfynu arnynt os ydynt yn parhau heb eu datrys.

7.2 Ar hyn o bryd, nid oes dim materion sydd wedi'u huwchgyfeirio o dan y broses hon er mwyn i'r Cyd-bwyllgor eu hystyried.

# ATODIAD A

# Rhaglen weithredu'r achosion busnes

Tud. 18

| PROFFIL ARBEDION ARFAETHEDIG ACGCC 2014/15 - 2018/19 | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Achos Busnes | Categori Arbedion | Disgrifiad Byr | Cynnydd yn erbyn Rhaglen | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyf Achos Busnes | 2019/20 | | |
| | | | | | | | | | £'m | £'m | | Meini Prawf Llwyddiant / Tystiolaeth | Canlyniadau hyd yn hyn / Arbedion a Gyflawnwyd |
| | | | | AMSERLEN CYFLAWNI | | | | | | | | | |
| BC04 - Gweinyddiaeth Dechnegol | Newid Model Darparu | Mewnoli a rhesymoli darparu swyddogaethau Gweinyddol Technegol i'r Uned Rheoli Cefnffyrdd (TRMU). | Cwblhau 1/4/16 | | | | | | -0.180 | -0.180 | | Cost gwirioneddol ar gyfer cyflwyno'r Cytundeb Darparu Gwasanaeth a'i gymharu yn erbyn arbedion cyllidol diwygiedig yr achos busnes. | Mae'r achos busnes yn dangos gostyngiad cyfwerth â 3 staff llawn amser i arbed £ 180k.<br>Mae'r awgrym cyfredol yn dangos y bydd yr arbedion yn sylweddol uwch na hyn, pe gallai fod yn oddeutu £ 500k.<br>Bydd y ffigurau yn cael eu cadarnhau yn y cyfrifon terfynol 2016/17. |
| BC05 - Archwiliadau | Newid Model Darparu | Mewnoli a rhesymoli darparu Archwiliadau Diogelwch, Manwl ac Arbenigol i'r TRMU. | Cwblhau 1/4/16 | | | | | | -0.930 | -0.930 | | I arddangos bod yr arbedion wedi cael eu cyflawni bydd angen y gallu i ddangos ein bod yn darparu lefel debyg o arolygiadau i'r flwyddyn sylfaenol yn y ffigyrau diwygiedig wrth ddefnyddio'r model diwygiedig. | Mae'r awgrym cyfredol yn nodi bod y rhaglenni arolygu yn cael eu cyrraedd a bod arbedion ar darged. |
| BC06 - Ceidwad Ardal | Newid Model Darparu | Mewnoli a rhesymoli swyddogaeth cleient i'r TRMU. | Cwblhau 1/4/16 | | | | | | -0.300 | -0.300 | | Dangosir hyn drwy gymharu costau llawn amser hanesyddol gyda chostau diwygiedig ar gyfer 2016/17. | Ar y trywydd cywir.<br>Bydd y ffigurau yn cael eu cadarnhau cyn y cyfrifon terfynol 2016/17. |
| BC07 Ymgynghoriaeth | Model Caffael Diwygiedig | Lleihad yn y Lluosydd o 2.1 i 1.9 er mwyn bod yn fwy cyson gyda'r sector preifat. | Cwblhawyd. Model diwygiedig ar waith 1/4/15 | | | | | | -0.420 | -0.420 | | Bydd amcangyfrif y ffigwr hwn yn seiliedig ar werth y gwaith ymgynghori a gomisiynwyd yn flynyddol trwy AP. Wrth amcangyfrifo y ffigwr rhaid i ni gymryd yn ganiataol bod lefel gyson o effeithlonrwydd gan gynnwys opsiwn A a dulliau talu E. Bydd yr arbedion yn cael ei gyfrifo trwy allosod y gwahaniaeth rhwng y gwerth 2.1 a 1.9 lluosydd. Bydd gwerth y costau yn gysylltiedig i gyfwerth y comisiwn. | Ar gyfer comisiynau arbedion Opsiwn E 2016/17 = £ 41k (yn seiliedig a'r lluosydd wedi'i addasu)<br>Mae arbedion Opsiwn A yn y drefn o 15% (cyfeiriwch at adroddiad Profi'r Farchnad) |
| BC10 - Cynnal a Chadw Ymatebol | Arbedion Effeithlonrwydd | Ymdrin yn well ag atgyweiriadau diffygion categori. | I'w chyflwyno dros 2016/17 | | | | | | -0.200 | -0.200 | | Bydd y costau arbedion yn deillio o'r lluosydd cyflog.<br>Mae'r arbedion dangosydd yn seiliedig ar wariant llinell sylfaen ar gynnal a chadw adweithiol.<br>Bydd arbedion gwirioneddol yn dibynnu ar y gwariant flynyddol a all fod yn uwch neu'n is na'r llinell sylfaen. | Adroddiad manwl I ddilyn |
| BC11- TUPE | | Lwfans ar gyfer rhwymedigaeth bensiwn a chostau eraill o ganlyniad i TUPE | Cost sengl ar gyfer 2016/17 | | | | | | 0.720 | 0.720 | | O ran ymrwymiad pensiwn nid yw costau yn cael eu gwireddu o ganlyniad i newid model Cyflawni a TUPE. Felly, un taliad yn erbyn y proffil arbedion. | Cynilo ar gyfer 2016/17 £ 720k |
| BC12 - Cynnal a Chadw Gaeaf | Rhestr o Gyfraddau | Sefydlu methodoleg unffurf ar gyfer rhannu costau sefydlog cynnal a chadw gaeaf rhwng Cefnffyrdd a Ffyrdd Sirol. | Cwblhawyd 2014/15. Gyda adolygiad a mireini parhaus | | | | | | -0.640 | -0.640 | | Mae hyn eisoes wedi cael ei egluro i EC Harris. Bydd y costau sefydlog cyfredol yn gael ei gymharu yn erbyn arbedion cyn-costau i ddangos eu bod dal yn ddilys. | Cost arbedion o £ 640k y flwyddyn wedi ei gyflawni o 2014/15 |
| BC14 - Ymateb i Argyfwng | Newid Model Darparu | Cyflwyno trefniadau diwygiedig i'r Uned Ymateb i Argyfwng ar gyfer ffyrdd deuol a sengl. | Cyflwynir yn sylweddol yn 2014/15 y flaen rhaglen gyda diwygiadau pellach i fynd i'r afael ar asedau trydanol yn 2016/17 | | | | | | -0.040 | -0.040 | | | Costau arbedion fesul c wedi cael ei lleihau, mae'r gwasanaeth wedi cael ei ymestyn i gynnwys y rhwydwaith.<br>Costau arbedion niwtral. |
| BC - 15 Rhestr o Gyfraddau | Rhestr o Gyfraddau | Datblygu system SOR newydd a wnaeth sefydlu methodoleg tryoloyw ar gyfer adnabod a rhannu costau sefydlog gorbenion rhwng y Cefnffyrdd a'r Ffyrdd Sirol h.y. cyfrifiwyd y gorbenion a'r risg ar wahân i gyfraddau'r uned a gweithgareddau cylchol blynyddol. | Cwblhawyd 2014/15 gyda adolygiad a mireinio parhaus | | | | | | -1.620 | -1.620 | | | Costau arbedion trwy'r Atodlen Gyfraddau wedi cael ei gyflawnwi ers 2014/15 gyda arbedion pellach yn cael ei gyflawni drwy'r broses meincnodi. |
| BC18 - Gwaith Stryd | Newid Model Darparu | Mewnoli a rhesymoli darparu swyddogaethau Gweinyddol Technegol i'r Uned Rheoli Cefnffyrdd (TRMU). | Cwblhau 1/4/16 | | | | | | -0.080 | -0.080 | | Bydd arbedion yn yr achos busnes yn cael ei ddangos drwy gymharu costau hanesyddol i'r costau a sefydlwyd. | Ar y trywydd cywir. |
| BC19 Cynnal a Chadw seiliedig ar Risg wedi'i arwain gan wybodaeth | Arbedion Effeithlonrwydd | Gweithredu dulliau cynnal a chadw yn seiliedig ar risg fel y cytunwyd gyda'r Llywodraeth Cymru | Gweithredwyd yn Ebrill 2016 gyda y broses monitro ac yn cael ei wneud yn ystod 2016/17. | | | | | | -0.840 | -0.840 | | Bydd amcangyfrifo yr arbedion hyn yn cael ei wneud drwy gymharu costau hanesyddol gyda chostau diwygeidig gofynion y WGTRMM ac yn amodol ar unrhyw faterion gweithredol a wynebwyd. | Fersiwn gyntaf o'r ymagwedd nawr ar waith.<br>Costau alldro a pherfformiad gweithredol i'w adolygu ar ddiwedd y flwyddyn. |
| BC20 Cynnal a Chadw seiliedig ar Risg wedi'i arwain gan wybodaeth | Arbedion Effeithlonrwydd | Gweithredu dulliau cynnal a chadw yn seiliedig ar risg fel y cytunwyd gyda'r Llywodraeth Cymru | Gweithredwyd yn Ebrill 2016 gyda y broses monitro ac yn cael ei wneud yn ystod 2016/17. | | | | | | -0.300 | -0.300 | | Bydd amcangyfrifo yr arbedion hyn yn cael ei wneud drwy gymharu costau hanesyddol gyda chostau diwygeidig gofynion y WGTRMM ac yn amodol ar unrhyw faterion gweithredol a wynebwyd. | Fersiwn gyntaf o'r ymagwedd nawr ar waith.<br>Costau alldro a pherfformiad gweithredol i'w adolygu ar ddiwedd y flwyddyn. |

# ATODIAD B

## Cronoleg Staffio ACGChC

| Llinell amser | Gofyniad o ran staff | Nifer y staff | Staff cronnus | Cynnydd mewn Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn yr Asiant | Staff Gweinyddiaeth Dechnegol YmgorfforedigAwdurdodau Partner | Staff Ymgynghoriaeth Ymgorfforedig Awdurdodau Partner (Gwasanaethau craidd) | Cyfanswm y staff |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm 11/12 | | | 75 | | | | |
| Ebr-12 | Llywodraeth Cymru yn gwneud cais i unoACCCac ACGCi greuACGChC.<br>Staff yn trosglwyddo drwy drefniadau TUPE o Gyngor Sir Powys i Gyngor SirGwynedd ac ailstrwythuro tîm Gweithrediadau Rhwydwaith Gogledd Cymru | 12 | 87 | 0 | | | |
| Ebr -12 | Proses y cytunwyd arni o fewnolirheolwr Asedau Geodechnegol gwbl bwrpasol drwy drefniadau trosglwyddo'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Cytunodd Llywodraeth Cymru â hynny ym Mwrdd yr Asiantaeth er mwyn gwella rheolaeth ac atebolrwydd rheolwyr ac i arbed costau. | 1 | 88 | 0 | | | |
| Ebr -12 | Swydd ychwanegol wedi'i chreu i fynd i'r afael â llwyth gwaith Rhestr Gyfraddau disgwyliedigo'r Canolbarth. (Penodwyd ym mis Rhagfyr 2013 i adlewyrchu rhaglen weithredu Rhestr Gyfraddau'r Canolbarth). Llywodraethu gwell. | 1 | 89 | 1 | | | |
| Ebr -12 | Penodi 2 Reolwr LlwybrauCynorthwyol ychwanegol ar gyfer yr A55i gymryd lle swyddi dros dro yn dilyn cyfnod gwerthuso ac i fodloni gofynion gweithredol. | 2 | 91 | 0 | | | |
| Tach-12 | Ehangu adnoddau staff Swyddogion Traffig i ddarparu gwasanaeth cydnerth 3 uned yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru. | 6 | 97 | 6 | | | |
| Cyfanswm 12/13 | | | 97 | | 40 | 35 | **172** |
| Gor-13 | Penodi 2 Swyddog Gwasanaeth Achub y gellir Ailgodi Tâl Amdano ar sail proses o fewnoli swyddogaethau achub a Rheoli Datblygiadau o Awdurdodau Lleol yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru. | 2 | 99 | 0 | -2 | | |
| Rhag-13 | Fel rhan o Gam 2 o broses ailstrwythuro ACGChC, 2 swydd newydd ychwanegol a mewnoli 1 swydd i ddarparu rheolaeth well ac i arbed costau.Gwnaed hyn hefyd i ddarparu lefel lywodraethu well ar gyfer y gwasanaeth arolygu a brynir. | 3 | 102 | 2 | | | |
| Cyfanswm 13/14 | | | 102 | | 38 | 35 | **175** |
| | | | | | | | |
| | Creu swydd rheolwr caffael a chontractau | | 1 | | | | |
| Cyfanswm 14/15 | | | 103 | | 30 | 35 | **168** |
| | | | | | | | |
| Cyfanswm15/16 | | | 103 | | 30 | 35 | **168** |
| | Trosglwyddo staff i Lywodraeth Cymru drwy drefniadau TUPE | | -11 | | | | |
| | Trosglwyddo o Awdurdodau Partner drwy drefniadau TUPE | | 6 | | | | |
| | Penodiadau grŵp a ystyriwyd o flaen llaw o Awdurdodau Partner | | 19 | | | | |
| | Swyddi eraill i'w hysbysebu | | 22 | | 10 | | |
| Cyfanswm 1/04/2016 | Strwythur diwygiedig yn ôl yr Achosion Busnes | | 139 | | 10 | 0 | **149** |
| | Swyddog Hawliadau Trydydd Parti Ychwanegol –derbyniodd Llywodraeth Cymru yr achos busnes ym mis Mehefin 2016 | | 1 | | | | |
| Cyfanswm 27/06/2016 | Strwythur diwygiedig yn ôl yr Achosion Busnes | | 140 | | 10 | 0 | **150** |

# ATODIAD C

## Ailddyrannu Rhwydwaith Cyngor Sir Ddinbych

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

# Ail-ddosrannu gweithgareddau

## Sir Ddinych

## 16 Medi 2016

Yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru
Working on behalf of the Welsh Government

1

# A55


Tud. 23






Sir y Fflint
Gwynedd
Sir y Fflint
Pwllglas
Gwynedd
Deeside
Mold
Denbigh
Ruthin
Corwen
Llangollen
Wrexha
Google

**Hyd y Rhwydwaith**

| | Deuol (Km) | | | Senglau (Km) | | | Cyfun (km) Deuol + Sengl | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Presennol | Arfaethedig | % | Presennol | Arfaethedig | | Presennol | Arfaethedig | | |
| SIR Y FFLINT | 102 | 114 | 39% | 10 | 42 | 5% | 112 | 156 | 13% | SIR Y FFLINT |
| CONWY | 87 | 109 | 37% | 89 | 89 | 10% | 176 | 198 | 16% | CONWY |
| GWYNEDD | 25 | 25 | 8% | 196 | 221 | 24% | 219 | 244 | 20% | GWYNEDD |
| CEREDIGION | | 0 | 0% | 115 | 115 | 13% | 115 | 115 | 10% | CEREDIGION |
| POWYS | | 0 | 0% | 429 | 429 | 47% | 429 | 429 | 36% | POWYS |
| WRECSAM | 50 | 50 | 17% | 13 | 13 | 1% | 63 | 63 | 5% | WRECSAM |
| SIR DDINBYCH | 34 | 0 | 0% | 57 | 0 | 0% | 91 | 0 | 0% | SIR DDINBYCH |
| | 298 | 298 | | 909 | 909 | | 1205 | 1205 | | |












Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio (ar sail 15/16)

| | Deuol £ | | | Senglau £ | | | Cyfun | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Presennol | Arfaethedig | % | Presennol | Arfaethedig | | | | |
| SIR Y FFLINT | 202,000 | 239,552 | 39% | 16,000 | 37,525 | 6% | 277,077 | 22% | SIR Y FFLINT |
| CONWY | 161,000 | 190,148 | 31% | 27,000 | 27,000 | 4% | 217,148 | 17% | CONWY |
| GWYNEDD | 63,000 | 63,000 | 10% | 108,000 | 127,475 | 20% | 190,475 | 15% | GWYNEDD |
| CEREDIGION | - | - | - | 99,000 | 99,000 | 16% | 99,000 | 8% | CEREDIGION |
| POWYS | - | - | - | 301,000 | 301,000 | 48% | 301,000 | 24% | POWYS |
| WRECSAM | 127,000 | 127,000 | 20% | 35,000 | 35,000 | 6% | 162,000 | 13% | WRECSAM |
| SIR DDINBYCH | 66,700 | | 0% | 41,000 | | 0% | - | 0% | SIR DDINBYCH |
| | 619,700 | 619,700 | | 627,000 | 627,000 | | 1,246,700 | | |

Tud. 26



Tud. 27

# Cat 1 (singles + duals) £


**Cat1 - Ffyrdd Sengl a Ddeuol Cyfartaledd £ Ffigyrau yn cynnwys ffyrdd sengl a Ddeuol**


**Ave Cat (£) over 3 yrs**

(figures include Duals & Singles)

| | Ave 2014-2016 | Prior to Split |
|---|---|---|
| FLINTSHIRE | 144,613 | 4% |
| CONWY | 312,426 | 10% |
| GWYNEDD | 398,057 | 12% |
| CEREDIGION | 470,035 | 14% |
| POWYS | 1,539,188 | 47% |
| WREXHAM | 256,932 | 8% |
| DENBIGH | 129,006 | 4% |
| | 3,250,257 | |

| Proposed (after split) | After split | |
|---|---|---|
| 194,086 | 6% | FLINTSHIRE |
| 352,385 | 11% | CONWY |
| 437,631 | 13% | GWYNEDD |
| 470,035 | 14% | CEREDIGION |
| 1,539,188 | 47% | POWYS |
| 256,932 | 8% | WREXHAM |
| | 0% | DENBIGH |
| 3,250,257 | | |



**Atodiad A – Costau Rheolaeth ar Waith Eitem 5 Cyflenwi a Gwasanaethau**


**B – Costau Depo**


Appendix A- works Unit Management Costs : Item 5 supply & services

B – Depot Costs

**Fixed Costs**
Costs for Appendix B - Depots and Appendix A Item 5

| | Existing 15/16 | Revised 16/17 |
|---|---|---|
| FLINTSHIRE | 36,171 | 47,205 |
| CONWY | 34,896 | 39,147 |
| GWYNEDD | 104,031 | 157,775 |
| CEREDIGION | 32,358 | 32,358 |
| POWYS | 201,616 | 201,616 |
| WREXHAM | 17,334 | 17,334 |
| DENBIGHSHIRE | 31,978 | |
| | 458,383 | 495,433 |




Tud. 28

# ATODIAD D

# Cofrestr Risgiau Partneriaeth ACGChC 2016/17 - Adolygwyd gan Dîm Rheoli'r Asiantaeth, Hydref 2016


# ATODIAD E


## Ymgynghoriaethau Awdurdodau Partner – Adroddiad ar Gynnydd a Pherfformiad

## Ymgynghoriaethau Awdurdodau Partner – Adroddiad ar Gynnydd a Pherfformiad (Hyd at 16:00, ddydd Gwener 27 Ionawr 2017)

Cafodd 277 o Brosiectau a Gomisiynwyd eu dyrannu i Ymgynghorwyr yr Awdurdodau Partner; mae'r rhaniad fel a ganlyn:


| YmgynghorwrAwdurdodau Partner | Comisiwn | Cyfanswm Cost y Prosiect |
|---|---|---|
| Ceredigion | 25 | £255,158 |
| Dinbych | 34 | £467,732 |
| Gwynedd (YGC) | 121 | £2,162,670 |
| Powys | 97 | £1,006,334 |







## A. Statws Prosiectau a Gomisiynwyd

| | |
|---|---|
| **Ceredigion** | O'r 25 o brosiectau a gomisiynwyd, mae 23 wedi'u cymeradwyo ac mae 2 yn aros am amcangyfrif yr ymgynghorydd. |
| **Sir Ddinbych** | O'r 34 o brosiectau a gomisiynwyd, mae 32 wedi'u cymeradwyo ac mae 2 yn aros am amcangyfrif yr ymgynghorydd. |
| **Gwynedd (YGC)** | O'r 121 o brosiectau a gomisiynwyd, mae 116 wedi'u cymeradwyo, ac mae 5 yn aros am amcangyfrif yr ymgynghorydd. |
| **Powys** | O'r 97 o brosiectau a gomisiynwyd, mae 93 wedi'u cymeradwyo ac mae 4 yn aros am amcangyfrif yr ymgynghorydd. |


AP - Adroddiad Statws Comisiwn
Cyfanswm nifer o Brosiectau
130
125
120
115
110
105
100
95
90
85
80
75
70
65
60
55
50
45
40
35
30
25
20
15
10
5
0
23
2
32
2
116
5
93
4
Ceredigion
Denbighshire
Gwynedd
Powys
Disgwyl amcan gan yr Ymgynghorwr
Wedi ei awdurdodi
Awaiting Consultant Estimate
Approved

## B. Statws Prosiectau a Gymeradwywyd

| | |
|---|---|
| **Ceredigion** | O'r 23 o gynlluniau a gymeradwywyd (£255,158) , mae 9 wedi'u cwblhau ac mae 14 yn parhau. Talwyd hyd yma £ 52,614 gyda chyfanswm costau heb eu hawlio o £ 202,544. |
| **Sir Ddinbych** | O'r 32 o gynlluniau a gymeradwywyd (£467,732), mae 14 wedi'u cwblhau ac mae 18 yn parhau. Talwyd hyd yma £ 230,886 gyda chyfanswm costau heb eu hawlio o £ 236,846. |
| **Gwynedd (YGC)** | O'r 116 o gynlluniau a gymeradwywyd (£2,162,670), mae 36 wedi'u cwblhau ac mae 80 yn parhau. Talwyd hyd yma £ 910,120 gyda chyfanswm costau heb eu hawlio o £1,252,550. |
| **Powys** | O'r 93 o gynlluniau a gymeradwywyd (£1,006,334), mae 26 wedi'u cwblhau ac mae 67 yn parhau. Talwyd hyd yma £ 411,253 gyda chyfanswm costau heb eu hawlio o £595,081. |





## D. Profion y Farchnad


Yn unol â'r Achos Busnes BC07 yr Asiantaeth a gyflwynwyd, mae profion y farchnad wedi cael eu cynnal ac mae'r adrannau a ganlyn yn cyflwyno'r canlyniadau:

Canlyniadau comisiynau y profion farchnad yw:

**<£50,000**


Cyfanswm nifer o Gomisiynau sydd yn cael eu Profi i'r Farchnad (<£50,000)
1
3
10
Ymgynghorydd AP
Fframwaith Ymgynghoriaeth
Heb eu dynodi

| Comisiwn cyf: | Ffi Ymgynghorydd | Ffi Fframwaith Ymgynghorydd | Cost cwblhau | Forecast Cost cwblhau rhagolwg | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **2.1.1** | £13,473 | Gwrthod tendro | | £13,473 | Prosiect cyfredol |
| **2.1.2** | £5,076 | £7,519 | | £4,576 | Prosiect cyfredol |
| **2.1.3** | £4,605 | £6,357 | £5,745 | | Prosiect cyfredol |
| **2.1.4** | £4,746 | £5,447 | | £12,450 | Sgôp ychwanegol |
| **2.1.5** | £4,568 | £8,173 | £4,909 | | Prosiect cyfredol |
| **2.1.6** | £4,809 | £8,476 | £4,809 | | Prosiect cyfredol |
| **2.1.7** | £9,030 | £10,370 | £9,030 | | Prosiect cyfredol |
| **2.1.8** | £9,228 | £17,561 | | £11,350 | Prosiect cyfredol |
| **2.1.9** | £9,228 | Dim cais | £18,350 | | Sgôp ychwanegol |
| **2.1.10** | Dim cais | Dim cais | | | Ail-dendro |
| **2.1.11** | £14,939 | Dim cais | | £14,939 | Prosiect cyfredol |
| **2.1.12** | £4,679 | £2,928 | | £2,928 | Prosiect cyfredol |
| **2.1.13** | £7,169 | £2,619 | | £2,619 | Prosiect cyfredol |
| **2.1.14** | Dim cais | £13,000 | | £13,000 | Prosiect cyfredol |




| Comisiwn Cyf: | Ffi Ymgynghorydd | Ffi Fframwaith Ymgynghorydd | Cost cwblhau | Fost cwblhau rhagolwg | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **2.2.1** | £36,155 | Ymgynghorydd Rhif.1 £39,257<br>Ymgynghorydd Rhif.2 £42,600<br>Ymgynghorydd Rhif.3 £42,992<br>Ymgynghorydd Rhif.4 £47,065 | | £36,155 | Prosiect Parhaus – Asesiad Cost Ansawdd ar gyfer ei gwobrwyo |
| **2.2.2** | Dim cais | £77,442.29<br>£74,788.52 | | £77,442.29 | Prosiect Parhaus – Asesiad Cost Ansawdd ar gyfer ei gwobrwyo |
| **2.2.3** | Proses Tendro yn parhau | | | | |

# ATODIAD F

## Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor
**(Cymerwyd o'r Cytundeb Partneriaeth, 2012)(cyfieithiad)**

9 Y Cyd-bwyllgor

9.1 Bydd yr Awdurdodau'n creu cyd-bwyllgor (Cyd-bwyllgor Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru) at y diben a nodir yng nghymal 9.2

9.2 Bydd y Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am gynorthwyo'r Awdurdod Arweiniol a'r Unedau Darparu Gwasanaethau o ran bodloni gofynion y Cytundeb Asiantaeth a dyma fydd ei gylch gorchwyl:

9.2.1 monitro'r broses o ddyrannu gwaith i Unedau Darparu Gwasanaethau

9.2.2 sicrhau bod yr Uned Rheoli Cefnffyrdd yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru yng nghyswllt y Cytundeb Asiantaeth.

9.2.3 monitro perfformiad Unedau Darparu Gwasanaethau

9.2.4 cael adroddiadau ar reoli'r trefniadau Partneriaeth, a chymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i sicrhau bod y Bartneriaeth yn gweithredu'n foddhaol

9.2.5 monitro trefniadau a chynigion fel y gellir gwella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir i Lywodraeth Cymru o dan y Cytundeb Partneriaeth

9.2.6 ystyried materion a gyfeirir at y Cyd-bwyllgor o dan gymal 9.6

9.3 Cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor

9.3.1 Bydd y Cyfarfod Cychwynnolyn mynd rhagddo cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl llofnodi'r Cytundeb hwn. Wedi hynny, bydd y Cyd-bwyllgor yn cwrdd fesul cyfnod y bydd y Cyd-bwyllgor yn cytuno arno, ond o leiaf unwaith ym mhob Blwyddyn Ariannol a

9.3.2 bydd cyfarfod cyntaf y Cyd-bwyllgor mewn unrhyw Flwyddyn Ariannol yn cael ei gynnal cyn 30 Medi yn y flwyddyn honno

9.3.3 y Cadeirydd a fydd yn penderfynu ar amser a lleoliad cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor

9.3.4 bydd darpariaethau paragraff 3 o Ran 1 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 (galw cyfarfodydd eithriadol) yn gymwys i'r Cytundeb hwnar wahân i'r amrywiad y bydd cyfeiriadau at 'bum aelod' yn y paragraff hwnnw yn cael eu dehongli'n gyfeiriadau at'Bedwar Awdurdod'

9.4 Cyfansoddiad y Cyd-bwyllgor

9.4.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cynnwys wyth (8) cynghorydd, un (1) o bob un o'r Awdurdodau. Bydd Dirprwyon yn cael eu caniatáu pan nad yw aelod penodedig awdurdod yn gallu bod yn bresennol.

9.4.2 Bydd pob Awdurdod yn cael un bleidlais. Oni bai y datganir fel arall, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy fwyafrif pleidleisiau syml. Bydd cworwm os oes o leiaf un aelod o bob un o bum Awdurdod.

9.4.3 Ac eithrio fel yr amrywir gan y Cytundeb hwn, bydd Rheolau Sefydlog yr Awdurdod Arweiniol yn gymwys i drafodion y Cyd-bwyllgor a bydd yr Awdurdod hwnnw'n gyfrifol am y trefniadau gweinyddol mewn cysylltiad â chynnull cyfarfodydd o'r Cyd-bwyllgor.

9.4.4 Prif Weithredwr yr Awdurdod Arweiniol fydd swyddog priodol y Cyd-bwyllgor at ddibenion Deddf 1972 a bydd Cynllun Dirprwyo'r Awdurdod Arweiniol yn gymwys i'r graddau y mae'n berthnasol.

9.5 Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd

9.5.1 Ni fydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor mewn unrhyw flwyddyn o'r un Awdurdod.

9.5.2 Gellir ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ynghylch diwygiadau neu amrywiadau i'r Cytundeb Asiantaeth ac ynghylch ymrwymo i Gytundebau Asiantaeth pellach.

9.6 Rôl Swyddogion

9.6.1 Bydd y Prif Swyddogion yn sicrhau y darperir gwasanaethau yn unol â'r Cytundeb hwn ac unrhyw gytundebau eraill rhwng yr Awdurdod Arweiniol ac Unedau Darparu Gwasanaethau, ac yn unol â'r Cytundeb Asiantaeth

9.6.2 Bydd y Rheolwr Asiantaeth yn gweithredu'n swyddog adrodd i'r Cyd-bwyllgor gan gael ei gynorthwyo yn ôl yr angen gan y Prif Swyddogion

9.6.3 Os yw unrhyw Brif Swyddog â rheswm dros ystyried bod yr Uned Rheoli Cefnffyrdd yn caffael gwasanaethau mewn ffordd sy'n anghyson â'r Cytundeb hwn, bydd yn ofynnol iddo yn y lle cyntaf grybwyll y mater wrth y Rheolwr Asiantaeth er mwyn datrys y mater;

9.6.4 Os yw'r Rheolwr Asiantaeth o'r farn nad yw UnedDarparu Gwasanaethau yn cyflawni gofynion y Cytundeb hwn, bydd yn crybwyll y mater yn y lle cyntaf wrth y Prif Swyddog sy'n gyfrifol am yr Uned Darparu Gwasanaethau er mwyn datrys y mater

9.6.5 Os yw'r materion a grybwyllwyd yn adrannau9.6.3 neu 9.6.4 yn parhau heb eu datrys, bydd Prif Swyddog yr Uned Darparu Gwasanaethau a Chyfarwyddwr Corfforaethol yr Awdurdod Arweiniol yn ystyried y mater ac yn ceisio'i ddatrys.

9.6.6 Os yw'r mater, ar ôl ei ystyried, yn parhau heb ei ddatrys, gall y Prif Swyddog neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gyfeirio'r mater at y Cyd-bwyllgor i benderfynu arno.